Pivotal Education Ltd

Hyfforddi oedolion i ysbrydoli

Cwricwlwm Pivotal

ynghylch Iechyd a Diogelwch

Uned 5: Diogelwch

Adran 5.1

Cyn i ni gychwyn

Mae Diogelu Plant yn dasg gymhleth sydd wedi cael ei gwthio i ymwybyddiaeth y cyhoedd gan gyfres ddi-baid o achosion amlwg sy'n ymwneud â chamdriniaeth, marwolaeth, gwasanaethau aneffeithiol ac anallu gweithwyr proffesiynol. Ar waethaf sawl rhybudd i staff sy'n gweithio o fewn elusennau, asiantaethau a gwasanaethau Iechyd a Gofal a sefydliadau addysgol, mae amrywiaeth o weithwyr proffesiynol â chymwysterau da, sy'n llawn cymhelliant ac yn brofiadol iawn, wedi methu ar sawl achlysur i adnabod y risgiau a'r peryglon sy'n wynebu unigolion sy'n cael eu cam-drin ac y troseddir yn eu herbyn.

Mae Pivotal Education wedi ymrwymo i ddarparu sgiliau a gwybodaeth i staff sy'n gweithio ym mhob agwedd o wasanaethau addysg a gofal a'r trydydd sector, a wnaiff eu helpu i sicrhau fod y plant maent yn gyfrifol amdanynt yn cael eu diogelu'n effeithiol.

Rhaid i ysgolion ddilyn yr holl weithdrefnau i sicrhau fod staff a gyflogir i wneud swyddi cyfrifol, ac yn enwedig gweithwyr cynnal, hyfforddwyr a gwirfoddolwyr, wedi cael eu hasesu fel unigolion sy'n ddiogel ac yn briodol i ryngweithio gyda disgyblion. Mae'n ofynnol i bob aelod staff fod yn ymwybodol o hyn a gweithredu'n briodol trwy'r adeg. Mae diogelu plant yn gyfrifoldeb personol ac ni ellir trosglwyddo'r atebolrwydd hwnnw i'r sefydliad.

Yn aml iawn, bydd atgofion pobl sy'n astudio Diogelu yn cael eu deffro neu byddant yn adfyfyrio'n wahanol ar sefyllfa broffesiynol yn y gorffennol. Cyn i ni gychwyn, cofiwch:

- Gall y pwnc hwn ddeffro atgofion neu gysylltiadau poenus.
- Nid yw hwn yn amser diogel i rannu atgofion personol.
- Os dymunwch chi, gallwch chi siarad â'ch Hyfforddwr wedi'r sesiwn, cysylltu ag un o uwch hyfforddwyr Pivotal ar 0207 0001735 neu geisio cymorth trwy ffonio Llinell Gymorth NSPCC ar 0808 800 5000.

 Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017

Adran 5.2

Rhywfaint o ystadegau

Amcangyfrifwch a llenwch yr ystadegau sydd ar goll isod.

- Mae bron iawn un o bob _____ plentyn heddiw wedi profi rhyw fath o gamdriniaeth gorfforol ddifrifol, camdriniaeth rywiol neu esgeulustod corfforol neu emosiynol difrifol rywbryd yn ystod ei fywyd.
- Mae un o bob _____ plentyn yn y DU wedi cael ei esgeuluso.
- Fe wnaeth yr heddlu yn y DU gofnodi cyfanswm o _____ o droseddau rhywiol yn erbyn plant yn 2011/12.
- Mae un o bob _____ plentyn yn y Deyrnas Unedig wedi cael ei gam-drin yn gorfforol.
- Mae oddeutu un o bob _____ plentyn yn y DU wedi profi trais yn y cartref.
- Ar gyfartaledd, bob _____ (dydd/wythnos/mis/blwyddyn) yn y DU, caiff o leiaf un plentyn ei ladd dan ofal rhywun arall.
- Mae dros _____ (hanner/un rhan o dair/chwarter/un o bob wyth) o'r adolygiadau o achosion difrifol yn ymwneud â phlentyn sydd o dan un oed.
- Am bob plentyn sy'n destun cynllun amddiffyn plant, rydym ni'n amcangyfrif fod _____ o blant eraill sy'n dioddef camdriniaeth ac esgeulustod ac sydd ddim yn cael y cymorth mae arnynt ei angen.
- Roedd dros _____,000 o blant yn derbyn gofal yn y DU yn 2012.
- Mae plant byddar a phlant anabl yn fwy na _____ gwaith yn fwy tebygol o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso na phlant sydd ddim yn anabl.

Adran 5.3

Y triongl diogelu



T +44 (0)20 7000 1735 W pivotaleducation.com **Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017**

Adran 5.4

Diffiniadau

Dysgwyr agored i niwed

Camdriniaeth

Esgeulustod

T +44 (0)20 7000 1735 W pivotaleducation.com **Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017**

Adran 5.5

Y fframwaith cyfreithiol/arweiniad

- Deddf Plant 1989
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - 1991
- Deddf Amddiffyn Plant 1999 (CRB)
- Dogfen Dim Cyfrinachau 2000
- Deddf Addysg 2002
- 5 canlyniad ECM – papur gwyrdd 2003 (Victoria Climbie)
- Deddf Plant 2004
- Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant 2006
- Adroddiad Lord Lamings 2009
- Diogelu oedolion: 6 egwyddor 2011
- Arferion gorau Diogelu mewn Addysg Bellach 2011
- Cynllun Fetio a Gwahardd 2012
- Deddf Diogelu Rhyddidau 2012
- DBS 2013
- Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg 2015
- "Beth i'w wneud os ydych chi'n pryderu fod plentyn yn cael ei gam-drin" 2015
- Rhannu Gwybodaeth 2015
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant 2015

Adran 5.6

Victoria Climbié

Defnyddiwch ddyfais symudol, llechen neu gyfrifiadur i ymchwilio i achos Victoria Climbiė a'r cyfleoedd a gollwyd i'w chadw hi'n ddiogel rhag niwed. Os oes arnoch chi angen help, defnyddiwch y cysylltiadau hyn:

http://victoriaclimbie.hud.ac.uk/background.html
http://news.bbc.co.uk/1/hi/uk/2122256.stm
http://www.theguardian.com/society/2003/jan/30/1
http://www.telegraph.co.uk/news/uknews/1385396/12-opportunities-missed-to-save-Victoria.html

 Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017

Adran 5.7

Ymddygiadau ac arferion dyddiol

 Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017

Adran 5.8

Enghreifftiau o gamdriniaeth

Lluniwch restr o gymaint ag y gallwch chi o wahanol enghreifftiau o gamdriniaeth:

 Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017

Adran 5.9

Dangosyddion camdriniaeth

Gofynnir i chi feddwl am un math o gamdriniaeth (naill ai corfforol, emosiynol, rhywiol neu esgeulustod).

Ceisiwch restru deg o ddangosyddion sy'n awgrymu y gallai dysgwr fod yn dioddef y math hwn o gamdriniaeth.

1	
2	
3	
4	
5	
6	
7	
8	
9	
10	

T +44 (0)20 7000 1735 W pivotaleducation.com **Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017**

Adran 5.10

Daliwch sylw:

1. Mae arwyddion unigol yn anodd eu barnu – mae clystyrau o arwyddion yn bwysicach.
2. Adnabyddwch batrymau a allai ddynodi y gallai digwyddiadau a phryderon rheolaidd fod yn gysylltiedig â pherygl o gamdriniaeth, neu gamdriniaeth wirioneddol.
3. Gall arwyddion a symptomau fod yn gysylltiedig â mwy nag un categori o niwed y gallai'r plentyn fod yn ei ddioddef, neu gallai fod mewn perygl o ddioddef mwy nag un categori o niwed ar yr un pryd.
4. Nid yw'r rhestr o arwyddion a symptomau yn hollgynhwysol.
5. Os bydd unrhyw amheuaeth ynghylch dilysrwydd y pryderon, trafodwch ag aelod o'r tîm dynodedig.

Camdriniaeth Gorfforol

1. Bydd anafiadau yn digwydd yn ddigymell yn aml iawn. Mater o siawns yw difrifoldeb yr anaf yn aml iawn.
2. Nid eich cyfrifoldeb chi yw sefydlu a oedd unrhyw fwriad i beri niwed i'r plentyn. Eich dyletswydd chi yw cysylltu â'r swyddog priodol.
3. Efallai gall cyd-destun y gamdriniaeth gynorthwyo'r arweinydd dynodedig i wneud penderfyniad, felly cofiwch beth ddywedwyd a chofnodwch hynny gan ddefnyddio union eiriau'r dioddefydd.
4. Ar y cyfle cyntaf, gall unigolyn priodol lunio map o gorff y plentyn, gan gofnodi marciau neu ddangosyddion anafiadau, oedran, amledd a hanes anafiadau blaenorol.

Arwyddion o gamdriniaeth gorfforol posibl

- Cleisiau niferus, ac eithrio rhai ar y crimogau
- Cleisiau ar y ffolennau
- Cleisiau a chrafiadau ar y pen a'r wyneb
- Dwy lygad ddu
- Gwefus uchaf wedi'i rhwygo (ffrenwlwm – lle mae'r croen yn cysylltu'r wefus uchaf a'r deintgig)
- Cleisiau blaen bysedd ar flaen a chefn y frest, sydd efallai yn dynodi fod rhywun wedi gafael yn y plentyn yn orfodol ac efallai ei ysgwyd
- Cleisiau blaen bysedd cyfatebol ar y ddwy foch
- Olion bysedd neu olion dwylo ar unrhyw ran o'r corff
- Olion brathu ar unrhyw ran o'r corff
- Marciau clymu (tagu neu atal)
- Olion dwylo a chleisiau oherwydd curfa
- Llosgiadau sigarét

T +44 (0)20 7000 1735 W pivotaleducation.com **Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017**

- Llosgiadau llinol (procer, bariau tân trydan)
- Llosgiad sy'n dangos ôl gwrthrych megis haearn smwddio
- Sgaldiadau sy'n anghyson â damwain, e.e. sgaldiadau ar ffolennau neu wadnau traen (bydd sgaldiad damweiniol nodweddiadol yn 'rhaeadru' ar flaen corff y plentyn, gan sgaldio'r gwddf, yr wyneb, yr ysgwyddau a'r frest)
- Toresgyrn yn achos plentyn sydd ddim yn gallu cerdded
- Toresgyrn dirdro neu doresgyrn niferus sy'n amrywio o ran eu hoedran
- Anaf i'r pen (gwaedlif rhwng yr ymennydd a philen yr ymennydd), yn aml â chleisiau blaen bysedd
- Anafiadau/cleisiau ar y clustiau

T +44 (0)20 7000 1735 **W** pivotaleducation.com **Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017**

Camdriniaeth emosiynol

Bydd pob math o gamdriniaeth yn niweidiol yn emosiynol. Bydd datblygiad emosiynol ac ymddygiadol yn cael ei niweidio gan gamdriniaeth neu wrthodiad cyson neu ddifrifol.

Arwyddion o gamdriniaeth emosiynol posibl

- Methu ffynnu
- Patrymau pwysau a thwf afreolaidd
- Ymwybyddiaeth wedi rhewi
- Salwch seicosomatig
- Oedi mewn datblygiad
- Arwyddion ymddygiad
- Hunan-anafu
- Gwlychu a/neu faeddu yn ystod y dydd neu'r nos yn achos plant o oedran ysgol
- Ymddygiad mewnblyg
- Ymddygiad ymosodol
- Trafferth sefydlu perthnasau
- Ymddygiad od
- Tangyflawni yn yr ysgol heb esboniad am hynny
- Ceisio sylw mewn modd amhriodol
- Ceisio dianc, e.e. rhedeg i ffwrdd, cysgu allan, ceisio lladd ei hun neu gam-drin sylweddau
- Dewis peidio siarad

Syndrom salwch ffug

(Salwch Gwneud ac Anwythol, Syndrom Munchausen trwy Ddirprwy, neu Salwch Ffug. Nid yw'r symptomau yn hollol eglur a gallant fod yn gymysg.)

Nodweddir y syndrom hwn gan berson ifanc yn cael sylw meddygol i drin symptomau sydd naill ai wedi cael eu ffugio neu eu hanwytho'n uniongyrchol gan ei ofalwr.

- Gwenwyno annamweiniol i wneud i blentyn neu berson ifanc ddioddef anhwylderau megis ffitiau a llewygu.
- Gofalwyr yn ffugio amrywiaeth o symptomau gan arwain at gynnal archwiliadau meddygol trwyadl neu roi moddion amhriodol.
- Plant neu bobl ifanc yn honni eu bod wedi dioddef salwch difrifol oherwydd alergeddau, ond yn aml iawn, ni fydd tystiolaeth o anoddefedd bwyd neu alergedd.
- Tagu plant neu bobl ifanc yn fwriadol i ddynwared anawsterau anadlu neu fethu anadlu.

T +44 (0)20 7000 1735 W pivotaleducation.com **Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017**

- Methiant difrifol i ffynnu o ganlyniad i'r gofalwr yn gyfrinachol yn atal y plentyn neu'r person ifanc rhag cael bwyd.

Nodweddion y symptomau

- Salwch dieglurhad neu salwch rheolaidd.
- Anghysondeb rhwng canfyddiadau meddygon a'r hanes a roddir gan y gofalwr.
- Ni all arbenigwyr meddygol egluro'r symptomau ar waethaf archwiliadau trylwyr.
- Presenoldeb dieglurhad cyffuriau/cemegau yng ngwaed, wrin, carthion neu hylifau ystumog y plentyn neu'r person ifanc.
- Presenoldeb dieglurhad gwaed neu sylweddau eraill yn wrin, carthion neu hylifau ystumog y plentyn neu'r person ifanc.
- Ni fydd y symptomau yn digwydd pan fydd y plentyn/y person ifanc a'r gofalwr wedi'u gwahanu.
- Hanes o farwolaethau babanod dieglurhad wedi digwydd yn y teulu.
- Plentyn neu berson ifanc sy'n aelod o deulu yr honnir bod ei aelodau yn dioddef amrywiaeth o anhwylderau meddygol sydd heb gael eu profi.

Gall symptomau weithredu fel dangosyddion i rybuddio gweithwyr proffesiynol am bryder posibl yn ymwneud ag amddiffyn plant.

T +44 (0)20 7000 1735 **W** pivotaleducation.com **Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017**

Camdriniaeth rywiol

Bwriad Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yw ceisio cryfhau a moderneiddio'r gyfraith mewn perthynas â throseddau rhywiol. Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar ymestyn amddiffyniad rhag cam-fanteisio rhywiol ar gyfer plant ac oedolion bregus trwy egluro'r termau allweddol 'cydsyniad' a 'rhywiol', a chyflwyno troseddau newydd sydd wedi'u cynllunio'n benodol i amddiffyn y sawl sy'n agored i niwed. Mae amddiffyn plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed yn rhan allweddol o waith nyrs ardal, felly mae'n hollbwysig i chi fod yn ymwybodol o ddarpariaethau allweddol Deddf 2003 fel gallwch chi adnabod a rhoi gwybod am unrhyw weithgarwch rhywiol anghyfreithlon.

Arwyddion o gamdriniaeth rywiol bosibl

Nodiadau:

- Yn aml iawn, ni fydd unrhyw arwyddion yn sgil camdriniaeth rywiol.
- Efallai bydd gan y plentyn broblemau ymddygiad, bydd yn datgelu rhywbeth neu bydd ganddo symptomau cenhedol-wrinol (rhai annelwig a/neu reolaidd yn aml iawn)
- Gall llawer o'r symptomau hyn gael eu hachosi gan gyflyrau meddygol sydd heb fod yn gysylltiedig â chamdriniaeth rywiol, ac nid yw absenoldeb symptomau/arwyddion yn golygu nad yw'r plentyn wedi dioddef camdriniaeth rywiol.

1. Unrhyw anaf neu glais (hyd yn oed rhai bychan) ger yr anws a'r organau cenhedlu (fel arfer, amddiffynnir y rhain gan y coesau).
2. Unrhyw ddolur ar yr anws neu'r organau cenhedlu neu waedu neu redlif ohonynt
3. Heintiadau cenhedlol-wrinol rheolaidd.
4. Beichiogrwydd neu glefyd a drosglwyddir yn rhywiol.
5. Problemau ymddygiad sy'n amrywio yn ôl oedran a gallant gynnwys:
    a. Gwlychu neu faeddu yn digwydd yn ddirybudd, yn ystod y dydd neu'r nos.
    b. Achosion o darfu ar gwsg megis hunllefau neu wrthod cysgu ei hun.
    c. Chwarae rhywiol amhriodol.
    d. Gwybodaeth rywiol amlwg, yn enwedig yn achos plant iau.
    e. Mastyrbio gormodol.
    f. Ymddygiad amlgymharus i geisio denu sylw.
    g. Ceisio dianc, megis rhedeg i ffwrdd, cysgu allan, ceisio lladd ei hun neu gam-drin sylweddau.
    h. Hunan-anafu.
    i. Anhwylderau bwyta megis Bwlimia ac Anorecsia Nerfosa.
    j. Poen yn y bol a chur pen parhaus heb unrhyw achos amlwg.
    k. Cam-drin alcohol neu gyffuriau.

T +44 (0)20 7000 1735 W pivotaleducation.com **Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017**

Esgeulustod

Bydd esgeulustod yn digwydd pan fydd plentyn neu oedolyn bregus yn cael ei rwystro rhag cael bwyd, dillad, lloches, gwres, gwasanaethau meddygol, addysg ac ati (ond nid pob un o'r elfennau hyn ar yr un pryd o reidrwydd).

Arwyddion a allai awgrymu esgeulustod

- Methiant gofalwyr i amddiffyn plentyn rhag peryglon neu i gyflawni gorchwylion gofal pwysig.
- Fel arfer, bydd angen i feddyg wneud diagnosis o esgeulustod, ond mae'r arwyddion o rybudd, ac eithrio bod y plentyn yn amlwg yn edrych fel rhywun sydd wedi'i esgeuluso, yn cynnwys:
  a. Archwaeth awchus
  b. Bydd y plentyn yn ffynnu oddi cartref
  c. Mae'r plentyn yn ddiymateb
  d. Llesgedd cronig
  e. Ddim yn rhoi pwysau neu'n tyfu neu bydd hynny'n digwydd yn afreolaidd
  f. Y plentyn yn cael ei adael heb oruchwyliaeth, heb sylw neu heb ddarpariaeth ddigonol
  g. Dillad annigonol neu anaddas
  h. Drewllyd a budr yr olwg
  i. Cyflyrau meddygol heb eu trin.

Oedi o ran ymateb i gyflyrau meddygol

Bydd ymatebion rhieni yn destun pryder pan fyddant yn:

- Oedi wrth geisio triniaeth feddygol pan fydd angen amlwg am hynny.
- Ceisio triniaeth feddygol gan amrywiaeth o ysbytai neu feddygon.
- Cynnig esboniadau anaddas neu amrywiol ynghylch anaf.
- Ailadrodd esboniadau am anafiadau newydd sydd wedi cael eu derbyn yn flaenorol gan weithwyr proffesiynol ynghylch anafiadau cynharach.
- Awgrymu fod mecanwaith yr anaf yn anghyson â natur yr anaf.
- Anymwybodol o'r anaf neu'n gwadu hynny.
- Beio'r plentyn.
- Dangos diffyg teimladau o euogrwydd.

T +44 (0)20 7000 1735 W pivotaleducation.com **Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017**

Adran 5.11

Arwyddion a dangosyddion problemau penodol

Mater	Dangosyddion posibl
Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod	
Radicaleiddio	
Priodas dan Orfod	
Camfanteisio Rhywiol	
Gangiau	
Bwlio ar-lein	

T +44 (0)20 7000 1735 W pivotaleducation.com Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017

Adran 5.12

Amlorchwylion

Gweithiwch mewn grwpiau o bedwar neu bump. Mae gan bob unigolyn rôl wahanol. Dewiswch pwy yw A, B, C, D ac E.
Disgrifir rôl bob unigolyn isod.

A. Dylai eistedd yn y gadair; ef neu hi yw'r gwrthrych.

B. Dylai sefyll gyferbyn ag unigolyn A a gwneud symudiadau sy'n llifo â'i ddwylo y mae'n rhaid i unigolyn A eu drychweddu yn gywir.

C. Dylai sefyll wrth ochr chwith unigolyn A a gofyn cwestiwn Mathemateg syml iddo neu iddi y mae'n rhaid i A ei ateb yn gywir.

D. Dylai sefyll wrth ochr dde unigolyn A a gofyn cwestiynau cyffredinol (beth yw dy enw di, pa liw yw dy wallt, pa fath o drowsus wyt ti'n eu gwisgo) ac mae'n rhaid i A roi ymateb anghywir. Hynny yw, rhaid i Unigolyn A ddweud celwydd.

E. Dylai sefyll tu ôl i unigolyn A a mynnu ymatebion cyflymach a chywirach (grwpiau o bump yn unig).

Bydd Unigolyn B yn cychwyn, wedyn Unigolyn C, ac yna Unigolyn D (ac Unigolyn E).

Dylai'r tri gychwyn yn araf ac yna cyflymu a bod yn fwyfwy awdurdodol.

Daw'r drwydded i ddefnyddio'r ddogfen hon i ben ar 1 Gorffennaf 2017. Os cawsoch chi'r ddogfen hon wedi'r dyddiad hwnnw, ffoniwch Pivotal Education ar 020 70001735 oherwydd mae hynny'n groes i amodau'r drwydded.
 Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017

Adran 5.13

Datgelu

 Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017

Adran 5.14

Rheoli Datgeliadau

Cofiwch

- Eglurwch fod gennych chi ddyletswydd i roi gwybod am yr hyn sy'n cael ei ddweud wrthych chi
- Rhowch sicrwydd i'r siaradwr y gwnewch chi wrando'n ofalus a chymryd ei honiadau yn ddifrifol
- Cadwch eich pwyll, waeth pa mor syfrdan fyddwch chi.
- Cadarnhewch y ffeithiau ond peidiwch ag ymchwilio.
- Rhowch sicrwydd i'r unigolyn.
- Eglurwch beth fyddwch chi'n ei wneud nesaf.
- Rhowch wybod i'r DSL am hynny yn syth.
- Cadwch gofnod llawn o'r datgeliad, cofnodwch y ffeithiau yn unig ac yn unol â pholisi'r ysgol.

Pethau na ddylech chi eu gwneud:

- Peidiwch â gofyn cwestiynau arweiniol – dylech chi osgoi cwestiynau pwy, beth, pryd, ble
- Peidiwch â cheisio cael rhagor o wybodaeth trwy 'gyfweld' pobl cyn cael cyngor
- Peidiwch ag ymddangos yn syfrdan neu'n ddig
- Peidiwch â barnu na gwneud casgliadau byrbwyll
- Peidiwch ag addo cadw cyfrinach
- Peidiwch â chyhuddo na chwestiynu unrhyw gamdriniwr honedig.
- Peidiwch â threfnu archwiliad meddygol oni bydd angen triniaeth feddygol. Os bydd amheuaeth o ymosodiad corfforol neu rywiol, peidiwch â chynghori'r unigolyn i ymolchi neu dynnu ei ddillad (oni bydd angen cymorth cyntaf ar frys) *efallai bydd angen cadw dillad ac esgidiau yn yr un cyflwr a dylid ymdrechu i beidio eu cyffwrdd.

Cofnodi datgeliad

- Defnyddiwch ffurflen safonol eich ysgol.
- Defnyddiwch eiriau'r plentyn; peidiwch ag aralleirio.
- Ysgrifennwch eich cofnod cyn gynted ag y bo modd wedi'r digwyddiad, fel na wnewch chi anghofio unrhyw beth.
- Cofiwch sicrhau fod y cofnod yn gryno a phwrpasol.
- Nodwch yn glir a ydych chi'n mynegi barn, yn rhoi gwybod am eiriau tyst, neu'n rhoi gwybod am adroddiad ail-law.
- Gofynnwch am gymorth i ysgrifennu eich cofnod os bydd angen hynny.
- Cofiwch gynnwys gwybodaeth am unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd wedyn, hyd yn oed penderfyniad nad oes angen gweithredu.
- Cofiwch y ddeddf gwarchod data: digonol, manwl gywir, cadw'n ddiogel.

T +44 (0)20 7000 1735 W pivotaleducation.com **Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017**

Adran 5.15

Astudiaeth Achos 1: Harvey (4 oed)

Harvey yw'r hynaf o blith tri sibling sy'n byw gyda'i fam a'i lystad, ond bydd yn gweld ei dad yn rheolaidd. Mae'r teulu yn byw dan amgylchiadau tlawd ac mae dyled a digartrefedd yn broblem. Mae Harvey yn blentyn uchel ei gloch, swnllyd a heriol, ac mae'n ymddangos nad yw'n deall ystyr y gair 'na'. Mae ei gynnydd yn yr ysgol yn dda, ond mae ei bresenoldeb wedi dirywio. Bydd Harvey yn dioddef nifer o fân anhwylderau, ac yn aml, ni fyddir yn ceisio sylw meddyg iddynt. Bu patrwm o fethu apwyntiadau yn achos y plant a'r fam. Mae Harvey wedi cael nifer o ergydion i'w ben ac mae ganddo hanes o gleisio.

Yn ôl mam Harvey, cafodd hi ei hun ei cham-drin yn emosiynol ac yn gorfforol pan oedd hi'n blentyn, ac mae hi wedi dweud fod ei mam yn dal i ymddwyn yn ymosodol tuag ati a hithau bellach yn oedolyn. Mae Lorraine yn ymddangos yn dawel, di-hwyl ac wedi'i gorlethu. Mae ei sgiliau magu plant yn gyfyngedig ac yn anghyson. Ychydig o ryngweithio sydd rhyngddi hi a'i phlant, ac mae hi'n dangos llai fyth o annwylder neu ysgogi emosiynol. Nid yw Lorraine yn awyddus i drafod na chydweithio â'r ysgol, ac nid yw hi'n deall eu pryderon. Weithiau, bydd Lorraine yn gadael y plant yng ngofal rhywun sydd yn ei arddegau cynnar. Roedd Darren, tad Harvey, yn hysbys i wasanaethau gofal cymdeithasol plant ac i CAMHS pan oedd yn blentyn. Mae ganddo hanes o iselder a phroblemau alcohol, a bydd yn ymladd yn aml ar ôl bod yn yfed. Bydd yn gweld ei fab yn rheolaidd, a bydd Harvey bob amser yn awyddus i weld ei dad. Fodd bynnag, gwelwyd cleisiau ar Harvey ar ôl bod yng ngofal ei dad. Dylid nodi fod cymaint o gleisiau ar gorff Harvey, cafodd dyspracsia ei ystyried, ond diystyrwyd hynny maes o law.

Chi yw athro neu athrawes Harvey: Beth yw eich pryderon? Beth ddylech chi ei wneud nawr? Beth ddylai ddigwydd nesaf?

T +44 (0)20 7000 1735 W pivotaleducation.com **Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017**

Astudiaeth Achos 2: Nathan (anghenion arbennig)

Mae anableddau Nathan yn golygu y gall gofalu amdano fod yn waith heriol iawn. Nid oes ganddo unrhyw leferydd, ac yn aml, bydd yn cyfathrebu trwy sgrechian. Bydd yn gwlychu ac yn baeddu, ac ar brydiau bydd yn rhwbio ei ysgarthion, a bydd yn gwrthod cerdded yn aml iawn pan fydd gyda'i fam. Mae'r ysgol wedi ceisio trafod â'r fam er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r ymddygiadau hyn, ond nid yw hi wedi llwyddo i gynnal unrhyw raglen waith.

Mae nifer o weithwyr proffesiynol mewn cysylltiad â'r teulu, yn cynnwys Gofal Cymdeithasol, a phan oedd yn chwe blwydd oed, roedd yr asiantaeth hon yn ystyried ei fod yn 'Blentyn mewn Angen' ar ôl cael hunan-atgyfeiriad gan ei fam. Mae Nathan wedi bod yn mynychu'r ysgol ac mae ganddo Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Gwelwyd rhywfaint o gleisiau ac anafiadau ar Nathan, ond mae'r anawsterau cyfathrebu mor ddifrifol, ni all fynegi'r hyn sy'n digwydd iddo mewn geiriau. Yn ôl ei fam a'i lystad, bydd Nathan yn hunan-niweidio adref. Mae staff yr ysgol hefyd wedi sylwi fod Nathan yn ceisio niweidio ei hun ar brydiau, ond ni fydd unrhyw farciau na chleisiau yn ymddangos ar yr adegau hynny. Mae'r Arweinydd Dynodedig ar gyfer Diogelu (DSL) yn yr ysgol wedi cael gwybod yn ddiweddar nad yw'r plant wedi bod yn mynychu apwyntiadau meddygol yn ystod misoedd diweddar. Fe wnaeth Cynorthwyydd Addysgu (TA) Nathan sylwi ar anaf diweddar ar fraich Nathan pan ddaeth i'r ysgol y bore hwn.

 Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017

Chi yw Cynorthwyydd Addysgu Nathan: Beth yw eich pryderon? Pam gam neu gamau gweithredu ddylech chi gymryd? Beth ddylai ddigwydd nesaf?

Daw'r drwydded i ddefnyddio'r ddogfen hon i ben ar 1 Gorffennaf 2017. Os cawsoch chi'r ddogfen hon wedi'r dyddiad hwnnw, ffoniwch Pivotal Education ar 020 70001735 oherwydd mae hynny'n groes i amodau'r drwydded.

 Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017

Astudiaeth achos 3: Chloe

Rydych chi'n addysgu dosbarth cymysgryw. Mae'n ymddangos fod Chloe'n cael trafferth cadw'n effro. Mae'r dillad y mae hi'n eu gwisgo heddiw yn edrych yn fwy addas ar gyfer achlysuron cymdeithasol, ac mae'r fest byr â choler isel sydd ganddi yn amlygu'r hyn sy'n edrych yn debyg i nifer o farciau duon uwchlaw ac islaw'r penelin. Mae'n ymddangos nad yw hi bellach yn rhan o grŵp o gyfoedion a bydd hi'n treulio llawer o amser ar ei phen ei hun. Mae ei chyfoedion yn cychwyn cadw draw oddi wrthi, ac rydych chi wedi sylwi y bydd hi'n aml yn cael pyliau o hwyliau oriog. Mae ei gwaith yn dirywio. Roedd hi'n arfer bod yn ddysgwraig gyffredin ond cydwybodol serch hynny, ond bellach, ni fydd hi fel arfer yn gorffen ei phrosiectau yn brydlon.

Chi yw Athro neu Athrawes Chloe: Beth yw eich pryderon? Pam gam neu gamau gweithredu ddylech chi gymryd? Beth ddylai ddigwydd nesaf?

Daw'r drwydded i ddefnyddio'r ddogfen hon i ben ar 1 Gorffennaf 2017. Os cawsoch chi'r ddogfen hon wedi'r dyddiad hwnnw, ffoniwch Pivotal Education ar 020 70001735 oherwydd mae hynny'n groes i amodau'r drwydded.

 Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017

Astudiaeth achos 4: Emily

Mae Emily yn 15 mlwydd oed, ac mae hi'n canlyn yn selog â'i chariad, Jason, ers blwyddyn. Mae Jason ac Emily ill dau yn eich dosbarth. Mae'n ymddangos fod ganddynt ryw fath o berthynas annwyl a chariadus.

Daeth tad Emily adref yn annisgwyl a chanfu fod Emily yn y gwely gyda Jason. Cafodd Jason ei anfon oddi yno. Ar ôl iddo adael, cosbwyd Emily gan ei thad dig. Fe wnaeth ei churo â belt. O ganlyniad i hynny, roedd gan Emily farciau cleisiau ar draws ei chefn a'i chluniau. Yn ystod yr hyfforddiant y diwrnod wedyn, mae Emily yn rhannu'r gyfrinach â'i ffrindiau agosaf. Mae'r ffrindiau yn bryderus am Emily ac yn hysbysu eu tiwtor am y mater.

 Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017

Astudiaeth achos 5: Kerry-Louise

Mae hi'n fis Ionawr. Yn ystod tymor yr Hydref, bu Kerry-Louise, 24 mlwydd oed (sydd ag anawsterau dysgu), yn absennol ar sawl achlysur, yn enwedig ar ddydd Llun. Cafodd ei chyfeirio at arbenigwr ym mis Rhagfyr, yn dilyn cyfres o heintiadau yn y llwybr wrinol. Rydych chi'n teimlo fod Kerry-Louise yn eneth sydd ddim yn cyflawni ei photensial. Bydd hi'n aml yn siarad am Dennis, cefnder a ddaeth i fyw gyda'i theulu hi y Pasg diwethaf. Mae hi'n byw ar aelwyd ofalgar a bydd hi bob amser yn gwisgo'n drwsiadus. Bydd ei rhieni yn cefnogi gweithgareddau'r ysgol, ac mae gan Kerry-Louise frawd iau a bydd hi'n aml yn siarad amdano ag anwyldeb. Bydd hi'n tueddu i orymateb os bydd hi â'i ffrindiau yn anghydweld ynghylch manion, neu os bydd hi'n gwneud camgymeriad yn ei gwaith. Yn hwyr fore Llun, mae Kerry-Louise yn dweud ei bod hi'n dymuno siarad â chi. Rydych chi'n gofyn ynghylch beth yn union. Mae hi'n dweud "Mae fy rhannau preifat yn boenus. Dennis ydy o".

T +44 (0)20 7000 1735 W pivotaleducation.com **Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017**

Adran 5.16

Mythau yn ymwneud â bwlio

Myth 1: Mae bwlio yn rhan arferol o blentyndod; dim ond rhywbeth dros dro ydy o
Myth 2: Mae'n iawn i chi daro rhywun sy'n eich bwlio chi, fe wnewch chi stopio'r bwlio
Myth 3: Dim ond mewn ysgolion fydd bwlio yn digwydd
Myth 4: Gallwch chi adnabod bwli trwy sylwi ar sut mae'n edrych ac yn ymddwyn
Myth 5: Tynnu coes a dim byd arall ydy bwlio ar-lein ac mae'n ddiniwed
Myth 6: Nid yw seibrfwlio yn golygu niwed corfforol, felly beth sy'n ddrwg yn hynny?
Myth 7: Dim ond pobl sydd ar-lein ac sydd â chyfrif hefyd all gael eu heffeithio gan seibrfwlio
Myth 8: Os bydd rhywun yn dileu'r sylw neu'r postiad, nid bwlio fydd hynny
Myth 9: Os yw bwlio mor ddrwg, pam nad oes cyfraith ynglŷn â hynny?
Myth 10: Mae'n hawdd adnabod arwyddion bwlio

Adran 5.17

Chwythu'r chwiban: Deddfwriaeth Datgelu er Lles y Cyhoedd (1998)

Mae'r "Ddeddf Chwythu'r Chwiban" yn annog ac yn caniatáu i weithwyr a staff asiantaethau fynegi eu pryderon ynghylch:

- Twyll;
- Anghysonderau ariannol neu gamweinyddu ariannol difrifol yn deillio o ymddygiad amhriodol;
- Llygredigaeth, llwgrwobrwyo, anonestrwydd neu flacmel;
- Torri rheoliadau iechyd a diogelwch;
- Camddefnyddio awdurdod;
- Unrhyw weithgarwch troseddol;
- Camweddau;
- Methu cydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol;
- Achosion difrifol o dorri gweithdrefnau sefydliad a allai fod yn fanteisiol i barti penodol;
- Ymddygiad anfoesegol;
- Peryglu neu niweidio'r amgylchedd.

Mae'r Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd yn cynnwys y rheolau canlynol ynghylch gwneud datgeliad a ddiogelir:

- Rhaid i chi gredu'n ddiffuant yn yr wybodaeth;
- Rhaid i chi gredu bod yr wybodaeth yn wir o ran sylwedd;
- Ni ddylech chi weithredu'n faleisus na gwneud honiadau ffug;
- Ni ddylech chi fod yn ceisio elwa'n bersonol.

Llinell Chwythu'r Chwiban OFSTED:

0300 123 3155

T +44 (0)20 7000 1735 W pivotaleducation.com **Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017**

Adran 5.18

Rhwystrau

Pedwar peth a allai rwystro dysgwr rhag datgelu camdriniaeth:

1.	
2.	
3.	
4.	

Pedwar peth a allai atal staff rhag datgelu camdriniaeth neu amheuon o gamdriniaeth i'r DSL:

1.	
2.	
3.	
4.	

T +44 (0)20 7000 1735 W pivotaleducation.com **Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017**

Adran 5.19

Crynodeb o bwyntiau allweddol

Beth yw tri chyfrifoldeb hanfodol oedolyn o ran Diogelu plant?

Nodwch un o ddangosyddion bob un o'r canlynol: Corfforol, Emosiynol, Rhywiol, Esgeulustod

Nodwch enghreifftiau o dri pheth y dylech chi wneud pan fydd plentyn yn datgelu gwybodaeth i chi:

 Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017

At bwy ddylech chi gyfeirio materion yn ymwneud â diogelu?

Pwy sy'n ymchwilio i honiadau yn ymwneud â diogelu?

Beth ddylech chi wneud os na allwch chi benderfynu beth i'w wneud?

Beth yw ystyr yr acronymau hyn? CAF, DSL, FGM, CRB, DBS, ECM, SS, LAC, ADHD

T +44 (0)20 7000 1735 **W** pivotaleducation.com **Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017**

Mae Pivotal Education Ltd yn ymgynghoriaeth hyfforddiant addysg sy'n gweithio ar draws y Deyrnas Unedig gyfan ac yn rhyngwladol. Sefydlwyd Pivotal Education yn 2001, ac mae'n ymrwymo i ddarparu hyfforddiant a chymorth heb eu hail i athrawon, arweinyddion ysgolion, a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phobl ifanc bod amser.

Ni yw'r arbenigwyr mwyaf blaenllaw ar Reoli Ymddygiad a Diogelu yn y Deyrnas Unedig. Mae ein nod yn un syml: hyfforddi oedolion i ysbrydoli pobl ifanc.

Bydd ein tîm hyfforddi mewnol clodwiw yn gweithio gydag amrywiaeth enfawr o athrawon ac addysgwyr mewn lleoliadau amrywiol. Bydd ein hyfforddiant byw yn sbarduno eich timau addysgu yn gyson, bydd ein hyfforddiant ar-lein yn cynnal newidiadau mewn arferion, a bydd ein cynllun hyfforddwyr trwyddedig yn sefydlu newid diwylliannol parhaus.

O sefydliadau hynod lwyddiannus i rai sy'n wynebu amgylchiadau heriol, o'r blynyddoedd cynnar i ddysgwyr ôl-16, bydd hyfforddiant Pivotal yn ysbrydoli, cymell ac yn creu newid diwylliannol dwys.

Mae ein gwaith yn ymestyn i 20 gwlad. Rydym ni'n Ymgynghorwyr a Gymeradwyir gan COBIS (Cyngor Ysgolion Rhyngwladol Prydain).

Dysgwch ragor

Llwythwch gyfres podlediadau Paul i lawr am ddim:
100 rhifyn, 100,000 lawrlwythiad,
Podlediad iTunes 5*:

pivotalpodcast.com

Fideos, newyddion, y cynigion diweddaraf
facebook.com/pivotaleducation

Paul Dix @pivotalpaul
Ellie Dix @pivotalellie

Daw'r drwydded i ddefnyddio'r ddogfen hon i ben ar 1 Gorffennaf 2017. Os cawsoch chi'r ddogfen hon wedi'r dyddiad hwnnw, ffoniwch Pivotal Education ar 020 70001735 oherwydd mae hynny'n groes i amodau'r drwydded.

 Yr holl gynnwys © Pivotal Education Ltd 2015-2017